# Rhestr Wirio Dechrau Contract

Gall landlordiaid ac asiantau ddefnyddio'r rhestr wirio hon a'i rhoi i denantiaid (deiliaid contract) ar ddechrau'r contract.

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad yr Eiddo | |
| Manylion Cyswllt Landlord/Asiant | |
| Enw/Enwau Deiliad/Deiliaid Contract | |

## Dogfennaeth

**Tenant (deiliad contract) -** Mae'n ofynnol i ni roi'r holl ddogfennau a nodir yn y tabl isod i chi. Cadarnhewch eich bod wedi derbyn y ddogfennaeth a darllenwch y nodiadau canllaw sy'n egluro beth yw'r dogfennau.

| Enw'r Ddogfen | Dyddiad Rhoi | Canllaw |
|---|---|---|
| Datganiad ysgrifenedig o'r contract meddiannaeth | | Rhaid i chi gael datganiad ysgrifenedig o'ch contract meddiannaeth o fewn 14 diwrnod o'ch dyddiad meddiannu. Mae'n nodi cyfrifoldebau'r landlord a'r tenant(iaid) (deiliaid/deiliaid contract). |
| Hysbysiad o Gyfeiriad y Landlord | | Mae'n rhaid i chi gael y wybodaeth yn y ffurflen safonol, RHW2. Bydd yn rhoi enw a chyfeiriad cyswllt y landlord i chi. Rhaid i chi gael y wybodaeth hon o fewn 14 diwrnod o'ch dyddiad meddiannu. |
| Rhestr Eiddo* | | * Yn ofynnol oni bai bod diwygiad y cytunwyd arno o fewn eich contract meddiannaeth i beidio â chael rhestr eiddo. Mae hwn yn adroddiad sy'n manylu ar gyflwr yr eiddo cyn eich dyddiad meddiannu, a dylech gael y rhestr eiddo o fewn 14 diwrnod o'ch dyddiad meddiannu. Dylech gael 14 diwrnod i roi unrhyw sylwadau. Mae'n bwysig eich bod yn darllen trwy'r rhestr eiddo ac yn gwirio'r eiddo i sicrhau eich bod yn cytuno bod y rhestr eiddo yn gywir. |
| Gwybodaeth Angenrheidiol Blaendal Diogelwch Tenantiaeth* | | *Os ydych chi wedi talu blaendal diogelwch tenantiaeth. Mae'n rhaid i chi gael gwybodaeth glir o fewn 30 diwrnod o dalu blaendal am sut mae'r blaendal yn cael ei gadw, gan gynnwys ble mae'n cael ei gadw, a manylion ar sut i gael eich blaendal yn ôl ar ddiwedd y contract. Mae'r wybodaeth yn cynnwys tystysgrif blaendal a Thelerau ac Amodau'r Cynllun Blaendal Diogelwch Tenantiaeth / Ffurflen Gwybodaeth i Denantiaid.<br>Cadwch y wybodaeth hon yn ddiogel oherwydd efallai y bydd angen i chi gyfeirio ati ar ddiwedd eich contract. |
| Rhestr o ffioedd tenantiaid | | Mae hon yn rhestr o ffioedd y gallech fod yn atebol amdanynt cyn, yn ystod neu ar ôl eich contract. |
| 'Canllaw Tenantiaid' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru | | Bydd y canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi y dylech gyfeirio ati drwy gydol eich contract. |
| Hysbysiad preifatrwydd | | Bydd hwn yn rhoi gwybod i chi sut rydym yn storio ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. |

## Ardystiad

**Tenant (deiliad contract) -** Mae'n ofynnol i ni roi'r tystysgrifau a nodir yn y tabl isod i chi. Cadarnhewch eich bod wedi derbyn y tystysgrifau a gwiriwch y tystysgrifau hefyd i sicrhau bod eich eiddo yn ddiogel.

| Tystysgrif | Dyddiad Rhoi | Dyddiad Dod i Ben | Canllaw |
|---|---|---|---|
| Cofnod Diogelwch Nwy | | | Mae'r Cofnod Diogelwch Nwy yn tystio bod y gosodiadau nwy a'r offer yn eich eiddo wedi cael eu profi. Gwiriwch y Cofnod Diogelwch Nwy i wneud yn siŵr ei fod yn nodi bod y gosodiadau nwy a'r offer yn ddiogel. Dim ond am flwyddyn y mae Cofnodion Diogelwch Nwy yn para a dylech dderbyn un newydd bob blwyddyn. |
| Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol | | | Mae'r adroddiad cyflwr gosodiadau trydanol yn tystio bod y gosodiadau trydanol yn eich eiddo wedi'u gwirio. Gwiriwch yr adroddiad i sicrhau bod y gosodiadau'n foddhaol ac nad oes angen gwaith brys. Mae'r adroddiadau hyn fel arfer yn para am 5 mlynedd ond cofiwch wirio'r dyddiad pan fydd angen archwiliad ac adroddiad newydd. |
| Tystysgrif Perfformiad Ynni | | | Bydd y dystysgrif hon yn rhoi sgôr perfformiad ynni eich eiddo i chi. Bydd y sgôr rhwng A-G. Os yw eich eiddo yn radd F neu G, ni ddylid rhentu'r eiddo oni bai bod y landlord wedi cofrestru eithriad. |

## Carbon Monocsid a systemau larwm mwg

**Tenant (deiliad contract) -** Mae'n ofynnol i ni sicrhau bod gan eich eiddo larymau priodol wedi'u gosod. Efallai y bydd angen systemau larwm ychwanegol yn dibynnu ar eich eiddo, ond mae'r tabl canlynol yn nodi'r isafswm sydd ei angen.

| Math y Larwm | Dyddiad Gwirio'r Larwm | Canllaw |
|---|---|---|
| Synwyryddion Carbon Monocsid | | Mae'n rhaid bod synhwyrydd carbon monocsid ym mhob ystafell sydd ag offer llosgi tanwydd (h.y. boeleri, hob nwy, tân nwy, stôf llosgi coed, lle tân agored). Bydd y synwyryddion hyn yn rhoi rhybudd i chi pan fydd lefel y carbon monocsid yn yr ystafell yn beryglus. |
| Synwyryddion mwg | | Mae'n rhaid i'ch eiddo gael, o leiaf, larwm mwg sy'n rhyng-gysylltiedig â'r prif gyflenwad ar bob llawr o'r eiddo i roi rhybudd i chi os bydd tân. |

## Blaendal Cadw

**Tenant (deiliad contract)**
Mae'r tabl isod yn nodi'r hyn sydd wedi digwydd i'ch blaendal cadw (os cymerwyd un).

| Swm Blaendal Cadw | Dyddiad Cymryd Blaendal Cadw | Beth sydd wedi digwydd i'r Blaendal Cadw? | Canllaw |
|---|---|---|---|
| | | | Dylai'r blaendal cadw a dalwyd fod wedi bod gyfwerth ag wythnos o rent (rhent misol wedi'i rannu â 4.35).<br><br>Mae'n rhaid i ni naill ai:<br>• ddychwelyd y blaendal cadw i chi, neu<br>• ei ddefnyddio tuag at y mis cyntaf o rent neu fel rhan o'r blaendal diogelwch.<br><br>Mae rhai amgylchiadau lle nad oes angen dychwelyd y blaendal cadw, sef:<br>• Mae’r tenant yn darparu gwybodaeth ffug a chamarweiniol yn fwriadol, neu<br>• Mae’r tenant yn methu ag ymrwymo i'r contract (o dan amgylchiadau penodol yn unig). |

## Allweddi, larymau a chodau mynediad

**Tenant (deiliad contract) -** Rydym wedi rhoi'r holl allweddi i chi ar gyfer pwyntiau mynediad eich eiddo fel y nodir yn y tabl isod. Mae'r tabl hefyd yn nodi unrhyw larwm a / neu godau mynediad ar gyfer y systemau mynediad drws.

| Pwynt Mynediad (e.e. drws ffrynt) | Allweddi, Codau Mynediad, Codau Larwm (e.e. 2 allwedd wedi’u rhoi, y cod larwm yw...) | Nodiadau |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Gwybodaeth Cyfleustodau

**Tenant (deiliad contract) –** Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth gyfredol sy'n ymwneud â'r darparwyr cyfleustodau sy'n cyflenwi eich eiddo. Gallwch newid darparwr cyfleustodau heb awdurdodiad ond rhowch wybod i ni os ydych yn newid darparwr.

| Gwasanaeth | Cyflenwr | Tenant yn gyfrifol? ydy/nac ydy | Darlleniad Mesurydd ar Ddechrau'r Contract | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|
| Trydan | | | | |
| Nwy | | | | |
| Dŵr | | | | |
| Band eang | | | | |

## Gwybodaeth Frys Cyfleustodau

**Tenant (deiliad contract)** – mae'r tabl isod yn nodi lleoliad yr uned defnyddiwr trydanol (blwch ffiws), y falf ynysu nwy a'r stopfalf dŵr.

| Eitem | Lleoliad |
|---|---|
| Uned Defnyddiwr Trydanol (blwch ffiws) | |
| Falf Ynysu Nwy<br>Os ydych chi'n arogli nwy? *Ffoniwch y rhif hwn am ddim os ydych chi'n amau bod nwy yn gollwng - 0800 111 999* | |
| Stopfalf Dŵr | |

## Gwybodaeth Ychwanegol

**Tenant (deiliad contract)** – mae'r tabl isod nodi gwybodaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen arnoch yn ystod eich contract.

| Gwybodaeth Ychwanegol | Manylion | Dogfen wedi'i rhoi? |
|---|---|---|
| Sut i roi gwybod am waith atgyweirio | | |
| Manylion cyswllt landlord/asiant mewn argyfwng/y tu allan i oriau | | |
| Ein gweithdrefn gwyno | | |
| Llawlyfr defnyddiwr ar gyfer offer sy'n cael eu darparu | | |
| Gwasanaethau casglu gwastraff yn eich eiddo, y diwrnod casglu a'r cyfleusterau ailgylchu | | |

| | | |
|---|---|---|
| Yswiriant – cyfrifoldebau deiliad contract | | |
| Cyfrifoldebau deiliad contract ar gyfer yr ardd | | |

## Amwynderau a Gwasanaethau Lleol

**Tenant (deiliad contract)** – mae'r tabl isod yn nodi amwynderau a gwasanaethau lleol.

| Amwynder / Gwasanaeth Lleol | Manylion |
|---|---|
| Awdurdod Lleol (Treth Gyngor, Rheoli Gwastraff, ac ati) | |
| Meddygon teulu lleol | |
| GIG 111<br>☎ 111 | |
| Fferyllfeydd | |
| Rhif yr heddlu ar gyfer achosion nad ydynt yn argyfyngau ☎ 101 | |
| Canolfan Cyngor ar Bopeth<br>☎ 08007022020 | |

Rwyf i, [landlord, asiant] yn cadarnhau fy mod wedi darparu'r holl fanylion, dogfennau a thystysgrifau a nodir yn y tablau uchod i'r tenant (deiliad contract).

| Enw | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |

Rwyf i/Rydym ni, y tenant(iaid) (deiliaid contract), yn cadarnhau ein bod wedi derbyn yr holl fanylion, dogfennau a thystysgrifau a nodir yn y tablau uchod.

| Enw | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

Rwyf i/Rydym ni, y tenant(iaid) (deiliaid contract), yn cadarnhau ein bod yn hapus i dderbyn gwybodaeth am y contract yn electronig i'r cyfeiriad isod:

| Enw | Llofnod | Cyfeiriad E-bost | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Dolenni i Ddogfennau at Ddefnydd Landlord/Asiant**

Gweler isod ddolenni i ddogfennau / tudalennau gwe y gellir eu hanfon at y tenant (deiliad contract).

| |
|---|
| A oes gwlybaniaeth neu anwedd? |
| Oes hawl cael anifail anwes? |
| Cyngor ar Garbon Monocsid (Saesneg yn Unig) |
| Awgrymiadau trydanol ar fyw gyda'ch gilydd yn ddiogel (Saesneg yn Unig) |
| Canllaw ar legionella |
| Canllaw Tenantiaid a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru |
| Tudalen Tenantiaid (Deiliaid Contract) Rhentu Doeth Cymru |
| Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru - Canllaw i denantiaid |
| Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru – Ffurflenni i denantiaid (deiliaid contract) |

Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English.